Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

Diben: Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl243

Amseru: Arferol

Teitl: Argraffu Cynllun Heddlu a Throseddu 2021 - 2025

Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid

Crynodeb Gweithredol: Mae'n ofynnol i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd (CHTh) gynhyrchu Cynllun Heddlu a Throsedd. Ysgrifennwyd y Cynllun Heddlu a Throsedd newydd ar gyfer 2021-2025 gan y Comisiynydd a staff yn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (OPCC), a dyluniwyd gan gwmni allanol, a bydd yn cael ei gyhoeddi ar-lein ar wefan y CHTh.

Mae Swyddfa'r Comisiynydd wedi cysylltu â chwmnïau argraffu lleol Gwasg Gomer, ac Y Lolfa sydd eisoes wedi gwneud gwaith argraffu ar gyfer y CHTh, i ofyn am ddyfynbris ar gyfer argraffu nifer fach o gopïau o'r Cynllun. Bydd hyn yn helpu i sicrhau mynediad ehangach i'r Cynllun, gan na fydd gan bob preswylydd fynediad i'n fersiwn ar-lein.

Yn unol â 'Gwybodaeth a Chanllawiau Caffael Heddlu Dyfed-Powys: Gweithdrefnau Caffael - Lefel Gwariant', cadarnheir nad yw'r lefel gwariant sy'n gysylltiedig â'r darn hwn o waith yn cwrdd â'r trothwy sy'n ei gwneud yn ofynnol i 3 dyfynbris gael eu caffael gan sefydliadau. Felly, cafwyd dyfynbrisiau gan Gwasg Gomer ac Y Lolfa, gyda'r dyfynbris a ddarparwyd gan Y Lolfa y mwyaf cystadleuol.

Argymhelliad:
Gofynnir i'r cwmni argraffu lleol, Y Lolfa argraffu 250 copi o Gynllun yr Heddlu a Throsedd, ar gost o £1245.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

Llofnod: **Dyddiad:10.12.21**